Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban

See all updates

Mae'r dudalen hon yn manylu ar y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a welir gennym wrth arfer ein swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn manylu ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED).

Mae'r PSED yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol (y Ddyletswydd) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus anadrannol megis Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol/Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, wrth arfer ein swyddogaethau cyhoeddus, roi sylw dyledus i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Nodweddion gwarchodedig

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

Sylw dyledus

Mae 'rhoi sylw dyledus' yn golygu, wrth wneud penderfyniadau ac yn ein gweithgareddau eraill o ddydd i ddydd, fod yn rhaid i ni 'ystyried yn ymwybodol' yr angen i:

- dileu neu leihau'r anfanteision a ddioddefir gan bersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion personau nad ydynt yn ei rhannu;
- annog personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bersonau o'r fath yn anghymesur o isel;

- mynd i'r afael â rhagfarn;
- hyrwyddo dealltwriaeth.

Dyletswydd ar wahân yng Ngogledd Iwerddon

Mae Gogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i drefn gyfreithiol ar wahân, a elwir yn ddyletswydd Adran 75. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol, gr?p hiliol, oedran, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol, dynion a menywod yn gyffredinol, pobl ag anabledd a phersonau heb a phersonau â dibynyddion a phersonau heb. Mae hefyd yn ofynnol cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon.

Cyfarwyddiadau polisi sy'n benodol i'r DU a gwledydd

Wrth ddosbarthu arian y loteri, mae'n rhaid i ni hefyd roi sylw i'n cyfarwyddiadau polisi (yn benodol i'r DU ac yn benodol i gwlad) sy'n cynnwys gofynion sy'n seiliedig ar gydraddoldeb megis:

- cynyddu mynediad a chyfranogiad y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn elwa o'r cyfleoedd treftadaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig
- lleihau amddifadedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan sicrhau bod gan bob rhan o'r Deyrnas Unedig fynediad i'r arian a ddosberthir

Lloegr:

- Ystyried buddiannau Lloegr yn gyffredinol a buddiannau gwahanol rannau o Loegr, gan ystyried y patrymau demograffig amrywiol a'r amgylchiadau economaidd yn y gwahanol rannau o Loegr.

Yr Alban:

- Yr angen i wella ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol drwy brosiectau sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac yn gwella ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol.

Cymru:

- Ystyried buddiannau Cymru gyfan a buddiannau gwahanol rannau o Gymru, gan ystyried y patrymau demograffig ac amddifadedd amrywiol yn y gwahanol rannau o Gymru.

Ein ymrwymiad

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu cymuned amrywiol a gwerthfawr o staff, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cyhoedd yn y DU yn fwy, drwy hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar gyflogaeth.

Rydym yn croesawu ac yn dathlu'r gwahaniaethau rhwng pobl, gan gydnabod y gwerth a ddaw yn sgil hyn i'n hamgylchedd gwaith ac i'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Ym mis Ebrill 2021 lansiwyd Fframwaith a Pholisi Recriwtio newydd sy'n rhoi ein gwerthoedd a'n hymddygiad ar sail gyfartal â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, i chwalu rhwystrau i ymgeiswyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, sy'n golygu ein bod yn gwarantu y byddwn yn cyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer pob swydd wag.

Dysgwch fwy am ein hymrwymiad i gyfle cyfartal yn y Gronfa Treftadaeth.